

Gwybodaeth i ymwelwyr â safle Llyn y Fan Fach

Darllenwch y cyngor canlynol cyn ymweld â Llyn y Fan Fach. Cyn ymweld gyda disgyblion, argymhellwn fod athrawon yn ymweld o flaen llaw er mwyn ymgysylltu â'r safle. Rydym wedi darparu'r wybodaeth ganlynol er mwyn sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r peryglon ar y safle a darparu argymhellion er mwyn lleihau'r risgiau hyn; fodd bynnag, cyfrifoldeb yr ysgol yw cwblhau eu hasesiad risg eu hunain gan ystyried unrhyw beryglon ychwanegol neu anghenion disgyblion.

Yn ogystal â'r uchod, argymhellwn fod gan grwpiau sy'n ymweld o leiaf un unigolyn sy'n gymwys mewn cymorth cyntaf ac yn cario offer cymorth cyntaf bob amser. Dylai ffonau symudol fod wedi eu gwefru'n llawn a dylai pob arweinydd grŵp fod yn ymwybodol o rifau argyfwng. Does dim toiledau ar y safle. Gobeithio y gwnewch chi fwynhau eich ymweliad.

Helpwch ni i warchod y safle!

Sicrhewch fod disgyblion yn ymwybodol na ddylid casglu blodau gwyllt ac y dylid gadael y safle yn union fel yr oedd wrth iddynt gyrraedd.

Perygl	Lefel risg	Rhagofalon i'w cymryd i leihau lefel y risg
Cerdded mewn ardal anghysbell/plant ar goll	Isel	Cynghorir athrawon i ymweld â'r safle o flaen llaw er mwyn ymgysylltu â'r safle a'r dirwedd. Dylai athrawon ddefnyddio'r 'system cyfaill' i sicrhau bod disgyblion bob amser yn ymwybodol o'r rhai hynny sydd o'u cwmphas. Sicrhewch fod oedolyn o flaen a thu ôl y grŵp. Cyfrwch y disgyblion yn gyson a gwnewch y disgyblion yn ymwybodol o gynlluniau pe bydden nhw'n mynd ar goll.
Tywydd gwael	Isel	Os yw tywydd gwael (gan gynnwys gwyntoedd cryf) yn gwneud ymweliadau â'r safle yn annïogel, dylid eu gohirio neu eu canslo. Dylai ymwelwyr wisgo'r dillad priodol wrth ymweld â'r safle, gan gynnwys esgidiau cadarn. Dylen nhw hefyd fod â dillad priodol am amrywiaeth o amodau tywydd. Mewn tywydd poeth, gwisgwch eli haul. Mae'r tywydd yn debygol o fod yn oerach ar y safle nag yn yr ysgol, felly dylai athrawon a disgyblion ddod â
lâ/mwd/rwbel ar y llwybrau neu'r llethrau	Canolig	lâ, mwd a dŵr ar y safle. Dylai athrawon sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o hyn ac osgoi ardaloedd gwlyb ar y safle. Dylai ymwelwyr wisgo esgidiau addas, a chadw at y llwybrau agored.
Sbwriel, metel, gwydr ac ati	Isel	Gallai fod gwydr wedi torri, darnau o fetel a sbwriel ar y safle. Dylai disgyblion ac athrawon fod yn ymwybodol o hyn ac osgoi cyffwrdd yn y sbwriel na'i godi.
Plant yn dringo ar gerrig rhydd neu gerrig brig	Isel	Gallai creigiau rhydd fod ar y safle a gallai disgyblion gael eu temtio i ddringo arnynt. Dylai athrawon gynghori disgyblion o'u natur ansefydlog ac argymhellir yn gryf y dylid osgoi unrhyw ddringo. Dylid dweud wrth unrhyw blant sy'n cael eu dal yn dringo ar strwythurau o'r fath i beidio ac i ddod i lawr (os yw'n ddiogel i wneud hynny) ar unwaith.



Perygl	Lefel y risg	Rhagofalon i'w cymryd er mwyn lleihau lefel y risg
Tir corsiog a llawn dŵr	Canolig	Dylai athrawon gynghori disgyblion i fod yn ymwybodol y bydd y ddaear yn feddal ac yn gorsiog yn ystod yr ymweliad. Dylai disgyblion ac athrawon wisgo esgidiau addas. Dylai'r athrawon ddefnyddio'r 'system cyfaill' er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol o'r rhai hynny o'u cwmpas drwy'r amser. Sicrhewch fod oedolyn gyda phob grŵp. Ni ddylai disgyblion fynd yn agos at ardaloedd sydd o dan ormod o ddŵr a dylent gadw draw rhag unrhyw byllau dŵr sydd ar y safle.
Dŵr	Canolig	Dylai athrawon gynghori disgyblion i gadw rhag dŵr a pheidio â mynd mewn i'r dŵr ar unrhyw adeg. Ni ddylai disgyblion ddringo ar waliau'r argae gan y gallen nhw syrthio mewn i'r dŵr.
Anifeiliaid	Isel	Gallai fod defaid a cheffylau yn yr ardal. Gallai anifeiliaid fferm eraill fod yn bresennol hefyd, gan gynnwys cŵn defaid. Dylai athrawon annog disgyblion i beidio ag aflonyddu'r defaid, bwydo'r ceffylau mynydd na mynd yn agos at unrhyw anifeiliaid eraill.
Clogwyni uchel	Isel	Dylid cynghori disgyblion i gadw draw rhag ymylon clogwyni ac unrhyw ardaloedd peryglus eraill.
Glendid/hydradiad	Isel	Ni fydd toiledau ar gael ar y safle. Dylid dod â chyfleusterau golchi dwylo sylfaenol a sicrhau eu bod ar gael.
Achosi llid ar y croen	Isel	Dylid sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol y gall rhai planhigion achosi llid ar y croen. Ni ddylai disgyblion gyffwrdd ag unrhyw blanhigion y maent yn ansicr beth ydynt a dylid sicrhau bod cyfleusterau golchi dwylo ar gael.
Peryglon eraill a nodwyd	Isel	Dylai o leiaf un aelod o'r staff sy'n goruchwylio fod yn gymwys mewn cymorth cyntaf a dylai fod ganddo/ganddi offer cymorth cyntaf ar yr ymweliad. Dylai fod gan athrawon ffôn symudol gyda nhw hefyd a dylen nhw fod yn ymwybodol o rifau argyfwng. Byddwch yn ymwybodol na fydd y safle o bosibl yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn neu rai llai abl. Dylai athrawon hefyd wirio bod gan ddioddefwyr asthma'r feddyginiaeth gywir gyda nhw gan fod rhai ardaloedd serth ar hyd y llwybr.